

COFNODION BWRDD YR YMDDIRIEDOLWYR A GYNHALIWDYD AR 04 HYDREF 2018

AMGUEDDFA GENEDLAETHOL Y GLANNAU, ABERTAWE

Rhif Eitem ar yr Agenda	Nodiadau	Gweithredu
	<p>YN BRESENNOL: Carol Bell (yn y Gadair), Laurie Pavelin (Trysorydd); Carys Howell, Catherine Duigan, Glenda Jones; Hywel Ceri Jones; Hywel John; Kay Andrews; Michael Prior; Rachel Hughes; Victoria Provis; David Anderson, Cyfarwyddwr Cyffredinol; Janice Lane, Cyfarwyddwr Datblygu Oriolau a Phrofiad Ymwelwyr; Nia Williams, Cyfarwyddwr Addysg ac Ymgysylltu, Heledd Fychan, Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus ac Elaine Cabuts, Ysgrifennydd yr Amgueddfa.</p> <p>HEFYD YN BRESENNOL: Lesley-Anne Kerr, Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd (MALD).</p>	
	<p>DATGAN BUDDIANNAU</p> <ul style="list-style-type: none"> • Carol Bell mewn perthynas ag eitem 10.4 yn ymwneud â'r les ar gyfer Nextbike. • Kay Andrews mewn perthynas â materion yn ymwneud â Chronfa Dreftadaeth y Loteri yng Nghymru. 	
	<p>Yn Sesiwn Gaedig y cyfarfod bu'r Bwrdd yn trafod: recriwtio Llywydd ac Ymddiriedolwyr; Adolygiad Thurley; Astudiaethau Dichonolrwydd ar gyfer Amgueddfa Chwaraeon / Pêl-droed ac Oriol Celf Gyfoes Genedlaethol; Adran a Bwrdd Datblygu; Sganio'r Gorwel; Tŷ Turner</p> <p>Wedi hynny agorwyd y cyfarfod i'r cyhoedd. Nid oedd unrhyw aelodau o'r cyhoedd yn bresennol.</p>	
1	<p>CROESO AC YMDDIHEURIADAU</p> <p>Croesawyd yr Ymddiriedolwyr a Lesley-Anne Kerr a Steph Mastoris i'r cyfarfod.</p> <p>Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Jessica Seaton a Peter Owen.</p>	
2	<p>COFNODION</p> <p><u>Penderfynwyd:</u> Yn amodol ar y cywiriadau canlynol, cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Mehefin 2018. Sef 6.6 '<i>...roedd y Pwyllgor Ymchwil Ymgynghorol wrthi'n datblygu map yn nodi'r gwahanol bartneriaethau, rhwydweithiau a bylchau oedd yn bodoli...</i>'. A 18.2.1 '<i>Nododd Cadeirydd y Bwrdd Datblygu y dylai Cadeirydd [y Pwyllgor Adolygu Perfformiad] dderbyn drafft o'r adroddiad blynyddol cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Adolygu Perfformiad.</i>'</p>	

3	<p>MATERION YN CODI</p> <p>4.2.3 Strategaeth Amgueddfeydd Cymru – Mae'r Amgueddfa wrthi'n gweithio â MALD i gael eu sylwadau. Y gobaith yw cyhoeddi'r Strategaeth cyn cyfarfod nesaf Bwrdd yr Ymddiriedolwyr.</p>	
4	<p>STRATEGAETH, POLISI A CHYNLLUNIO</p> <p>1. ADOLYGIAD THURLEY</p> <p>1.1. <u>Adroddwyd</u>: Rhoddodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol y newyddion diweddaraf i'r Bwrdd mewn perthynas â chynnydd â'r rhaglenni cyfalaf a chynigion i Lywodraeth Cymru i gefnogi datblygu System Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid yn Amgueddfa Lechi Cymru ac Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru.</p> <p>2. PARTNERIAETH STRATEGOL CYMRU HANESYDDOL</p> <p>2.1. <u>Adroddwyd</u>: Bod strategaeth sgiliau drafft wedi'i datblygu gan yr is-grŵp Sgiliau a'r bwriad yw cynnal lansiad wedi'i drefnu gan Lywodraeth Cymru yn y Senedd. Mae'r Cyfarwyddwr Cyffredinol yn arwain gwaith y Grŵp Masnachol yn absenoldeb y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol. Mae'r Amgueddfa yn disgwyl am ymateb gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas ag amodau cyflog y Cyfarwyddwr Masnachol.</p> <p>3. AMGUEDDFA CHWARAEON / PÊL-DROED AC ORIEL CELF GYFOES GENEDLAETHOL</p> <p>3.1. <u>Adroddwyd</u>: Nododd Lesley-Anne Kerr fod Llywodraeth Cymru wedi derbyn yr adroddiadau gan y ddau ymgynghorydd sy'n datblygu'r cynigion a bod y Gweinidog wedi'u gweld. Byddai dadl ar y ddau adroddiad yn y Cyfarfod Llawn ar 27 Tachwedd 2018. Byddai'r adroddiadau yn cael eu cyhoeddi ymlaen llaw a byddai'r Gweinidog yn darparu datganiad eglurhaol.</p> <p>3.2. Roedd cronfa cyfalaf gwerth £5 miliwn wedi'i neilltuo er mwyn gweithredu ar y canlyniadau, a bellach byddai angen i hwn ddod o gyllideb cyfalaf 2020/2021.</p> <p>3.3. Roedd angen rhagor o waith i ddatblygu'r cynigion ar gyfer oriel celf gyfoes genedlaethol. Roedd cyfarfod nesaf Grŵp Llywio'r prosiect ar 25 Hydref.</p> <p>4. CYNLLUNIAU CEFNOGWYR / AELODAETH NEWYDD</p> <p>4.1. <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad a chyflwyniad gan y Cyfarwyddwr Datblygu a'r Swyddog Marchnata Aelodaeth</p> <p>4.2. <u>Adroddwyd</u>: Rhoddwyd cyflwyniad i'r Ymddiriedolwyr yn nodi'r cynigion ar gyfer cynllun aelodaeth cydgysylltiedig a haenog wedi'i frandio â lefelau ffioedd a manteision gwahanol.</p> <p>4.3. Nododd yr Aelodau bod y Cyfeillion yn gorff cyfansoddiadol ar wahân, a bod yr Amgueddfa yn ceisio creu cysylltiadau cadarn ac agos â'r Pwyllgor a'i aelodaeth drwy'r cynllun diwygiedig hwn.</p> <p>4.4. Nododd yr Aelodau y manteision posibl i'r bobl hynny sy'n cyrchu gwasanaethau a gweithgareddau'r Amgueddfa ar-lein.</p> <p>4.5. Nodwyd cyfleoedd i ddatblygu cynllun aelodaeth ieuenctid gyda rhaglen Tynnu'r Lluch. Roedd cyfleoedd eraill yn cynnwys gweithio â'r rhaglen Cyfuno, a'r Fforymau Amrywiaeth ac Ieuenctid i ddatblygu syniadau. Roedd yr Adran Datblygu wedi argymhell dechrau gyda</p>	

	<p>chynllun bach y gellir ei reoli ac y gellid ei ddatblygu drwy ymgynghori ac adborth. Y nod oedd helpu i ddatblygu cynulleidfaoedd yr Amgueddfa drwy'r dull cydgysylltiedig hwn a symud y Weledigaeth yn ei blaen.</p> <p>4.6. <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, a bod y Llywydd dros dro yn cwrdd â Chadeirydd newydd y Cyfeillion. Diweddariad i'w ddarparu yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd.</p>	<p>Llywydd dros dro / Cyfarwydwr Datblygu</p>
<p>5</p>	<p>CASGLIADAU AC YMCHWIL</p> <p>1. STRATEGAETH YMCHWIL, PROFFIL RHYNGWLADOL A PHERTHYNAS Â PHRIFYSGOLION</p> <p>1.1. <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan y Pennaeth Ymchwil a Cheidwad y Gwyddorau Naturiol.</p> <p>1.2. <u>Adroddwyd</u>: Roedd y papur mewn tair rhan. Byddai'r Uwch Dîm Arwain yn ystyried drafft terfynol y Strategaeth Ymchwil, a ddatblygwyd gan y Pennaeth Ymchwil. Wedyn byddai Cynllun Gweithredu a dogfen allanol yn cael eu drafftio. Ceidwad y Gwyddorau Naturiol oedd yn arwain y gwaith ar y papurau yn ymwneud â phroffil rhyngwladol yr Amgueddfa a'r berthynas â phrifysgolion. Byddai'r Pwyllgor Ymchwil Ymgynghorol yn ystyried y ddau bapur hyn, a byddai Cynllun Gweithredu tair blynedd yn dilyn.</p> <p>1.3. Roedd y Cyfarwyddwr Cyffredinol yn falch o adrodd ar lefel ymgysylltiad Addysg Uwch oedd yn allweddol i Gymru. Blaenoriaeth gyntaf yr Amgueddfa oedd sicrhau bod yr holl sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru yn cymryd rhan cyn bod yr Amgueddfa yn chwilio am bartneriaethau y tu allan i Gymru.</p> <p>1.4. Diolchodd Cadeirydd y Pwyllgor Cyngori ar Ymchwil i staff yr Amgueddfa a'r ymgynghorwyr arbenigol allanol ar y Pwyllgor am eu gwaith. Nododd rôl gyfunol y tair cainc a'r rhan bwysig a chwaraewyd gan staff i ddeall rôl ymchwil i'r Amgueddfa . Bydd partneriaethau eraill â sefydliadau megis y Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Choleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru (CBCDC) yn cael eu datblygu. Nododd yr Ymddiriedolwyr y gwaith partneriaeth â CBCDC mewn perthynas ag arddangosfa arfaethedig Richard Burton.</p> <p>1.5. Yn ychwanegol at yr incwm a gynhyrchir gan weithgaredd ymchwil, nododd yr Aelodau yr ystod o ddangosyddion perfformiad y gellid eu cymhwyso i'r gwaith hwn. Roedd y rhain yn cynnwys nifer y staff â doethuriaeth, albynnau, papurau cynhadledd a gyflwynwyd, arddangosfeydd a guradwyd, a meincnodi yn erbyn amgueddfeydd eraill. Roedd cyfleoedd i hyrwyddo'r gwaith hwn i gynulleidfa fyd-eang.</p> <p>1.6. Nododd yr Aelodau fod yr adran ymchwil yn arwain ar waith sy'n cyflawni'r Weledigaeth, a'r nod oedd cysylltu strategaethau'r casgliadau, ymchwil ac arddangosfeydd ynghyd, gydag ymchwil wrth wraidd popeth.</p> <p>1.7. <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, ac y byddai trafodaeth o amgylch y bwrdd yn cael ei chynnal â'r prifysgolion yng Nghymru yn dilyn lansio'r Strategaeth Ymchwil allanol, i annog a datblygu deialog. Gall y gwaith</p>	<p>Ceidwad y Gwyddorau Naturiol / Pennaeth Ymchwil.</p>

	hwnnw ddechrau ar unwaith wrth hyrwyddo'r Strategaeth Ymchwil a gymeradwywyd.	
6	<p>ADOLYGIAD O WEITHGAREDD</p> <p>1. ADRODDIAD DYSGU BLYNYDDOL</p> <p>1.1. <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan y Pennaeth Dysgu.</p> <p>1.2. <u>Adroddwyd</u>: Nododd y Cyfarwyddwr Dysgu ac Ymgysylltu ein bod wedi rhagori ar yr holl dargedau ar gyfer y flwyddyn. Roedd yr Amgueddfa'n gweithio ag Adran Addysg Llywodraeth Cymru i roi mewnbwn i'r Cwricwlwm newydd i Gymru.</p> <p>1.3. Llongyfarchwyd y staff gan yr Ymddiriedolwyr ar eu cyflawniadau o ran gweithio ag ysgolion, a'r cyfraniad i'r llyfr <i>Cymru mewn 100 Gwrthrych</i>. Roedd yr Amgueddfa ar flaen y gad hefyd o ran partneriaethau addysgeg. Nodwyd yr ystod o weithgareddau dysgu digidol ledled Cymru.</p> <p>1.4. Nodod dyr ymddiriedolwyr y rôl y mae dysgu'n ei chwarae o ran cyflymu datblygiad celloedd ymennydd pobl ifanc.</p> <p>1.5. <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny.</p> <p><i>Gadawodd Kay Andrews y cyfarfod ar yr adeg hon.</i></p>	
7	<p>ADOLYGIAD GWEITHGAREDD</p> <p>1. CYNLLUN GWEITHREDOL CHWARTER 1, DIGWYDDIADAU A GWEITHGAREDDAU ARFAETHEDIG, ADRODDIAD AR Y SEFYLLFA ARIANNOL</p> <p>1.1. <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol / Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus</p> <p>1.2. <u>Adroddwyd</u>: Bod cynnydd da iawn wedi'i wneud yn y chwarter cyntaf â phedwar gweithgaredd yn rhagori ar eu targedau, a naw yn cael eu gohirio tan chwarteri diweddarach.</p> <p>1.3. Nododd yr Ymddiriedolwyr fod penodiad y Cyfarwyddwr Masnachol yn nwylo Llywodraeth Cymru er mwyn ei gymeradwyo. Nododd Lesley-Anne Kerr eu bod yn aros am gadarnhad gan y Gweinidog ar y mater sydd heb ei ddatrys. Nodwyd pwysigrwydd y rôl hon i'r Amgueddfa gan yr Ymddiriedolwyr o ran cyflawni un o brif argymhellion Adolygiad Thurley – creu incwm ychwanegol.</p> <p>1.4. Mewn perthynas â'r adroddiad ariannol, statws a phrotocol adrodd. Ar hyn o bryd roedd yr Amgueddfa'n defnyddio ei Chronfeydd wrth Gefn i gefnogi ei gweithgareddau.</p> <p>1.5. <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, a bod adroddiadau yn y dyfodol yn defnyddio'r wybodaeth ariannol ddiweddaraf sydd ar gael, a bod nodiadau'n cael eu cynnwys i esbonio unrhyw amrywiadau sylweddol.</p> <p><i>Gadawodd Hywel Ceri Jones y cyfarfod ar yr adeg hon.</i></p>	Cyfarwydwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaet hol
8	<p>PROJECTAU MAWR</p> <p>1. RHAGLEN GWAITH CYNNAL A CHADW HANFODOL STRATEGOL</p>	

	<p>1.1. <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Datblygu Orielau a Phrofiad Ymwelwyr, y Pennaeth Rheoli Adeiladau ac Ystadau, a Rheolwr y Rhaglen Gyfalaf.</p> <p>1.2. <u>Adroddwyd</u>: Rhaglen Gwaith Cynnal a Chadw Hanfodol Strategol: bod y gwaith brys gwerth £6.4 miliwn a fyddai'n cael ei gwblhau o fewn y terfyn amser a nodwyd a'r gwaith a aseswyd yn cynnwys ac yn ymwneud â mynd i'r afael â materion iechyd a diogelwch. Nododd Ymddiriedolwyr y costau uwch a nodwyd yn yr adroddiad Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau (RBA 2) a bod yr Amgueddfa mewn deialog barhaus â Llywodraeth Cymru ynglŷn â chyllid ychwanegol er mwyn cyflawni cwmpas gwreiddiol y gwaith cynnal a chadw hanfodol. Er mwyn aros o fewn y dyraniad cyllid presennol o £6.4 miliwn, bu rhaid i'r Amgueddfa leihau cwmpas y gwaith a chyflwynwyd opsiynau i Lywodraeth Cymru i gwblhau'r gwaith a ddiddymwyd o ganlyniad i'r dadansoddiad o gostau uwch. Nid yw rhaglen na chyllideb y gwaith cynnal a chadw hanfodol yn caniatáu cynnwys unrhyw faterion cynnal a chadw adweithiol a all godi yn ystod y flwyddyn. Nododd y Bwrdd hefyd fod ôl-groniad ehangach o waith cynnal a chadw hanfodol yr amcangyfrifwyd y byddai'n costio £64 miliwn pan adroddwyd arno i Lywodraeth Cymru yn 2016. Nododd y Bwrdd yr hwyaf yr arhosir cyn rhoi sylw i'r gwaith, yr uchaf fyddai cost cyflawni'r holl waith cynnal a chadw sydd wedi ôl-gronni.</p> <p>1.3. <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny.</p> <p>2. AILDDATBLYGU SAIN FFAGAN</p> <p>2.1. <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol a'r Cydlynnydd Project.</p> <p>2.2. <u>Adroddwyd</u>: Bod y Bwrdd a'r staff yn teimlo'n freintiedig bod y gwaith ailddatblygu yn dod i ben a'i fod yn ddechrau cyfnod o gyfleoedd i greu manau dysgu newydd. Byddai'r digwyddiad agoriadol ar 18 Hydref yn cael ei ragflaenu gan ddiwrnod i staff ar 17 Hydref.</p> <p>2.3. Trafododd yr Ymddiriedolwyr y gwahanol wobrau pensaerniaeth, adeiladau ac amgueddfeydd y byddai'r amgueddfa o bosibl yn gymwys ar eu cyfer.</p> <p>2.4. Roedd ffeithlun yn cael ei greu mewn pryd ar gyfer y lansiad ar 18 Hydref.</p> <p>2.5. <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, a nododd yr Ymddiriedolwyr mai dyma fyddai'r adroddiad olaf o bosibl fyddai'n cael ei gyflwyno i'r Bwrdd.</p>	
9	<p>TREFNIADAU LLYWODRAETHU</p> <p>1. COFNODION DRAFFT CYFARFODYDD AMRYWIOL</p> <p>1.1. Ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn – Roedd angen i Ymddiriedolwyr y Cynllun benodi cynrychiolwyr Ymddiriedolwyr yr Amgueddfa. Roedd yr Aelodau'n falch o nodi bod 93% o'r cynllun wedi'i ariannu.</p> <p><u>Penderfynwyd</u>: Y dylai unrhyw Ymddiriedolwr sy'n dymuno cael ei ystyried i'w benodi'n Ymddiriedolwyr y Cynllun Pensiwn gysylltu â'r Llywydd Dros Dro. Dylid cymeradwyo'r broses benodi drwy gyfarfod electronig mewn pryd ar gyfer y cyfarfod nesaf ar 28 Tachwedd 2018.</p>	Ymddiriedolwyr

	<p>1.2. Cyfarfod ar y cyd o'r Pwyllgorau Adolygu Perfformiad ac Archwilio – Nododd Cadeirydd y Pwyllgor fod y cyfarfod wedi cymeradwyo'r cyfrifon a'u bod wedi'u harwyddo ar 12 Gorffennaf 2018 a'u gosod gerbron y Cynulliad yr wythnos ganlynol. Canmolwyd yr Amgueddfa am ei stiwardiaeth ariannol. Nododd y Cyfarwyddwr Cyffredinol y byddai ef, y Cyfarwyddwr Ariannol ac Adnoddau Corfforaethol a'r Cyfarwyddwr Dysgu ac Ymgysylltu yn ymddangos gerbron y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn y Senedd ar 22 Hydref 2018.</p> <p>1.3. Pwyllgor Archwilio – Dyma gyfarfod cyntaf Hywel John fel Cadeirydd. Argymhellodd y Pwyllgor i'r Bwrdd y dylid ailbenodi Rheon Tomos i'r Pwyllgor am dymor arall. <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, a chymeradwyodd y Bwrdd benodiad Rheon Tomos am ei ail gyfnod a'i gyfnod olaf o bedair blynedd, yn dechrau ar 24 Hydref 2018.</p> <p>1.4. Mentrau AOCC Cyf – Nododd yr Aelodau nad oedd y cofnodion wedi'u cymeradwyo'n ffurfiol eto gan y Cadeirydd, a bod y ffigur ar gyfer y cynnydd mewn perfformiad o 774% yn siop Gwalia i'w gadarnhau.</p> <p>1.5. Pwyllgor Cynghori ar Ymchwil – Nododd y Cyfarwyddwr Cyffredinol nad oedd yr Amgueddfa wedi cytuno eto ar ei ymrwymiad mewn perthynas â gweithio gyda chwrs MA Astudiaethau Treftadaeth Prifysgol Caerdydd. Nododd fod rôl i'w chwarae o ran archwilio cydestun cymdeithasol astudiaethau treftadaeth.</p> <p>2. FFORMADU PAPURAU</p> <p>2.1. <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan Ysgrifennydd yr Amgueddfa.</p> <p>2.2. <u>Adroddwyd</u>: Bod yr adroddiad yn nodi protocol arfaethedig o ran fformadu papurau sy'n dod at y Bwrdd a'i bwyllgorau.</p> <p>2.3. Nododd yr Aelodau fod y siart yn dangos ystod y pwyllgorau a'r grwpiau sy'n cynnwys aelodau sy'n Ymddiriedolwyr, yn hytrach nag esbonio'r llinellau adrodd.</p>	
10	<p>MATERION CYFREITHIOL A RHEOLEIDDIOL</p> <p>1. RHEOLIADAU DIOGELU DATA CYFFREDINOL</p> <p>1.1. <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan y Rheolwr Diogelwch Gwybodaeth.</p> <p>1.2. <u>Adroddwyd</u>: Bod y Cyfarwyddwr Cyffredinol wedi nodi'r cynnydd mewn hyfforddiant staff a'u bod yn gwneud cynnydd da tuag at gydymffurfio.</p> <p>1.3. Holodd yr elodau am y risg i'r Amgueddfa pe bai achos o dorri'r rheoliadau, a chwestiynwyd canran y staff hyfforddedig sef 74%. Nododd yr Ymddiriedolwyr fod y risg i'r Amgueddfa'n isel.</p> <p>1.4. <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny a bod amserlen y siart mewn perthynas â hyfforddiant yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad nesaf.</p> <p>2. CYDYMFFURFIO Â SAFONAU'R GYMRAEG</p> <p>2.1. <u>Adroddwyd</u>: Bod y Cyfarwyddwr Dysgu ac Ymgysylltu wedi rhoi diweddariad i'r Bwrdd mewn perthynas â chwyn ynglŷn â methu â chydymffurfio â safon 32 ac 80. Roedd yn ymwneud â gweithgaredd cyhoeddus bum mis yn flaenorol yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd a hwyluswyd gan siaradwr di-Gymraeg yn absenoldeb hwylusydd Cymraeg ei iaith, sef sefyllfa nad oedd modd ei rhag-weld. Mae'r gweithgaredd dan sylw yn dod o dan safon 32 ac 80. Mae'r</p>	Cyfarwydwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaet hol

	<p>Amgueddfa wedi derbyn penderfyniad y Comisiynydd. Yn unol â chais y Comisiynydd, bydd yr Amgueddfa yn gwneud y newid angenrheidiol i'w pholisi.</p> <p>3. DIWEDDARIAD BLYNYDDOL AR IECHYD A DIOGELWCH</p> <p>3.1. <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Datblygu Orielau a Phrofiad Ymwelwyr a Phennaeth Amgueddfa Genedlaethol y Glannau.</p> <p>3.2. <u>Adroddwyd</u>: Bod yr adroddiad yn rhoi diweddariad blynyddol i Ymddiriedolwyr am eu rolau a'u cyfrifoldebau yn ymwneud â deddfwriaeth lechyd a Diogelwch. Yn benodol, nododd Ymddiriedolwyr y ffyrdd yr oedd yr Amgueddfa'n gweithio ac yn rheoli materion lechyd a Diogelwch, gan gynnwys â staff.</p> <p>4. ARWYDDO PRYDLES</p> <p>4.1. <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Datblygu Orielau a Phrofiad Ymwelwyr a Phennaeth Amgueddfa Genedlaethol y Glannau.</p> <p>4.2. <u>Adroddwyd</u>: Bod y brydles i ddarparu lleoedd parcio ar gyfer Nextbike wedi'i harwyddo. Roedd yr Amgueddfa'n falch o allu cefnogi y project pwysig hwn.</p> <p>4.3. <u>Penderfynwyd</u>: Nodwyd bod y brydles wedi'i harwyddo.</p>	
11	<p>UNRHYW FATER ARALL</p> <p>1. Adolygiad yr Arglwydd Holmes - agor penodiadau cyhoeddus i bobl anabl. <u>Penderfynwyd</u>: Cylchredeg y gwahoddiad i gyfrannu at yr adolygiad i Ymddiriedolwyr.</p> <p>2. Cardiau Nadolig – Byddai cardiau Nadolig yr Amgueddfa ar werth yn y siopau cyn Hanner Tymor yr Hydref.</p> <p>3. Presenoldeb y Bwrdd yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau – Diolchodd y Bwrdd i holl staff yr amgueddfa am y croeso a roddwyd i'r Ymddiriedolwyr a'u gwesteion a'u partneriaid yn y digwyddiad y noson gynt. Roedd y digwyddiad yn dangos rôl bwysig iawn yr amgueddfa ym mywyd cymunedau Abertawe. Roedd y Llywydd Dros Dro yn falch o allu diolch i Steph Mastoris am y rôl y mae'n chwarae ym mywyd yr Amgueddfa, ac o ran ei gysylltiadau proffesiynol â phartneriaid yr amgueddfa.</p> <p>4. Arddangosfa Kizuna – Roedd catalog yr arddangosfa ar gael bellach.</p>	Ysgrifenn ydd yr Amgueddfa
	<p>Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf</p> <p><u>Penderfynwyd</u>: Y bydd cyfarfod nesaf Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn dechrau am 9:00am ar 13 Rhagfyr 2018 yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd.</p>	